Mae cydraddoldeb wrth wraidd holl weithgarwch Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr

Fforwm yw NUJ Pride sy'n dathlu ac yn cefnogi ein haelodau sy'n Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ac mae'n darparu man diogel i aelodau drafod ein bywydau proffesiynol a'r sefydliadau cyfryngol rydym yn gweithio iddynt.

Ein nod yw dileu pob math o wahaniaethu, yn enwedig gwahaniaethu yn erbyn aelodau sy'n Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Mae Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr yn cefnogi aelodau'r undeb sydd o'r farn y gwahaniaethir yn eu herbyn o ganlyniad i'w cyfeiriadedd rhywiol neu eu statws trawsrywiol.

Mae gwefan NUJ Pride ar agor i bawb, ond gellir ei defnyddio hefyd fel fforwm cyfrinachol i drafod materion anodd.

Mae Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr yn herio gwahaniaethu mewn gweithleoedd, yn y cyfryngau ac mewn cymdeithas - rydym yn cydweithio â sefydliadau eraill er mwyn cyflawni ein nodau - ond mae angen eich help chi arnom.

Dywedwch wrthym ymhle y mae gwahaniaethu'n parhau a helpwch ni i roi cyhoeddusrwydd i gynnydd ac arfer da a'i ddathlu. Mae NUJ Pride yn wefan ar gyfer aelodau sy'n Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a'n cefnogwyr. Ymunwch â ni, gyda balchder.

Gwefan NUJ Pride: www.nujpride.org.uk